



Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/02042/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

02 Medi 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Awst ynghylch yr ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deisebau gan Peter Phillips, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion am ddeiseb i ryddhau cyllid i unigolion hunan-gyflogedig o fewn y diwydiant cerddoriaeth byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £53 miliwn i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio gydag effaith y pandemig. Bwriad y Gronfa Adferiad Diwylliannol yw rhoi cymorth hanfodol pellach i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, llyfrgelloedd, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd wedi gweld colled enfawr o ran refeniw oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi'r sefydliadau a'r unigolion yn y sector.

Er mwyn targedu is-sectorau penodol yn uniongyrchol, caiff y Gronfa Adfer Diwylliannol ei darparu ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru eu cronfa ar gyfer ceisiadau ar 17 Awst ac mae fy swyddogion yn gweithio i gwblhau manylion y cynllun ar gyfer cronfa Llywodraeth Cymru fydd yn cynnwys cefnogaeth i weithwyr creadigol llawrydd proffesiynol a lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Rydym yn disgwyl derbyn manylion llawn sut y bydd y broses ymgeisio yn gweithio yn fuan.

Mae hyn yn dilyn cronfa fechan o £20,000 i bedwar o leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, ddaeth ar yr un pryd â lansio Cymru Greadigol ym mis Ionawr, a 22 o fusnesau cerddoriaeth ac ariannwyd at gyfanswm o £402 mil drwy'r gronfa cymorth i gerddoriaeth ar lawr gwlad, gafodd eu canmol am eu cyflymder a'u heffeithiolrwydd gan y diwydiant a rhanddeiliaid megis

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, a siaradodd yn bositif yn ystod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol.

Cronfa Cymru Greadigol oedd y cymorth ariannol cyntaf oedd ar gael i fusnesau cerddoriaeth mewn unrhyw fan yn y DU, gyda'r cyfnod rhwng gwneud cais a derbyn yr arian ar gyfartaledd yn llai nag wythnos.

Dyma dystiolaeth bod cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth yn flaenoriaeth i Cymru Greadigol. Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau anodd ac ansicr iawn sy'n cael eu hwynebu gan unigolion a busnesau yn y sector ledled Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig cymorth i'r diwydiant. Rydym wedi sefydlu grŵp cymorth COVID-19 i randdeiliaid cerddoriaeth i gasglu gwybodaeth am effaith y pandemig, ac i weithio gyda'n partneriaid i weld y ffordd orau o gynnig cymorth mewn ymateb i hyn.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r sector cerddoriaeth drwy ein grŵp cymorth rhanddeiliaid COVID i helpu i sicrhau bod ein lleoliadau cerddoriaeth yn ail-agor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism